**POLISI APÊL DYRCHAFU AC AILRADDIO**
**(Uwch Ddarlithwyr)**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Gall unigolion sy’n aflwyddiannus yn eu cais i gael eu dyrchafu/ailraddio apelio yn erbyn y canlyniad a gofyn am adolygiad.

## 2. Pwrpas a Chwmpas

2.1 Mae’r trefniadau hyn yn berthnasol i unigolion sy'n gwneud cais drwy’r llwybr Uwch Ddarlithydd a’i nod yw sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cael eu gwobrwyo’n briodol ac yn deg am y cyfrifoldebau a’r dyletswyddau a gyflawnir ganddynt.

## 3. Egwyddorion

3.1 Bydd y Brifysgol yn gweithredu proses benderfynu deg i ddatrys apeliadau staff.

**TREFN APELIO O RAN DYRCHAFU AC AILRADDIO**
**(Uwch Ddarlithwyr)**

## 1. Amserlen ceisiadau i apelio ynghylch dyrchafu/ailraddio

1.1 Rhaid i unigolion sydd yn gwneud cais i apelio gyflwyno eu hachos i Adnoddau Dynol erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr gwreiddiol yn eu hysbysu am y canlyniad (fel rheol 20 diwrnod gwaith fan bellaf ar ôl yr hysbysiad).

## 2. Rhesymau dros Apelio

2.1 Bydd unigolion yn cael apelio dim ond os ydynt yn credu bod unrhyw rai o'r rhesymau canlynol yn bodoli:

- Nad yw'r drefn y cytunwyd arni i ystyried ceisiadau dyrchafu ac ailraddio wedi ei gweithredu'n gywir.
- Nad yw gwybodaeth berthnasol wedi cael ei chymryd i ystyriaeth neu wedi ei dehongli'n anghywir.
- Nad yw gwybodaeth, sy'n berthnasol i ddyddiad y cais, wedi ei chyflwyno gan yr apelydd i'r Panel Gwirio i'w hystyried.

## 3. Sut mae gwneud cais

3.1 Wrth ofyn am adolygiad dylai'r apelydd ddarparu datganiad sy'n egluro'r rhesymau dros yr apêl (yn erbyn meincnod a dangosyddion meini prawf asesu dyrchafiad) gan ddarparu eglurhad/tystiolaeth ychwanegol os oes angen.

3.2 Rhaid i'r datganiad/tystiolaeth ychwanegol gael ei chadarnhau gan Bennaeth yr Ysgol/ Coleg/Adran, neu gan gynrychiolydd a ddewiswyd gan Bennaeth yr Ysgol/Coleg/Adran, cyn ei chyflwyno i Adnoddau Dynol.

3.3 Cyflwynir y datganiad, ynghyd â'r holl ddogfennau a ddarparwyd i'r Panel Gwirio, i'r Panel Apêl i'w adolygu a rhoddir copi i'r apelydd.

## 4. Panel Apêl

4.1 Bydd y Panel Apêl fel rheol yn cynnwys yr aelodau cymwys canlynol:

Cadeirydd annibynnol (aelod lleyg o'r Cyngor, neu Gadeirydd arall y cytunir arno/arni)
1 cynrychiolydd priodol o'r Rheolwyr
1 cynrychiolydd o'r Undebau Llafur

Gwasanaethir y panel gan aelod o staff Adnoddau Dynol.

Sylwer: Ni fydd y panel yn cynnwys unrhyw unigolion a fu'n aelodau o'r Panel Gwirio.

4.2 Ni fydd y Panel Apêl yn ceisio gwerthuso barn broffesiynol y Panel Gwirio ond bydd yn ystyried a ydyw trefniadau'r Polisi Dyrchafu ac Ailraddio wedi eu gweithredu'n briodol ac a ydyw'r wybodaeth a gyflwynwyd iddynt wedi cael ei hystyried yn llawn. Wrth wneud hynny bydd y Panel Apêl hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth newydd wedi ei gwirio a gyflwynir iddynt yn y datganiad apêl.

4.3 Bydd y Panel Apêl yn penderfynu a ddylai gadarnhau penderfyniad y Panel Gwirio neu a ddylai argymell bod yr achos yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Panel Gwirio i'w ystyried ymhellach ac yn derfynol. Os bydd y Panel Apêl yn gwrthod y cais, bydd y Panel Apêl yn rhoi datganiad eglur o'r rhesymau.

## 5. Hysbysu canlyniadau

5.1 Lle mae'r Panel Apêl wedi dod i'r casgliad y dylid cadarnhau penderfyniad y Panel Gwirio hysbysir yr apelydd yn ysgrifenedig o'r canlyniad ac anfonir copi at y Pennaeth neu reolwr llinell perthnasol.

5.2 Lle mae'r Panel Apêl wedi penderfynu argymell bod yr achos yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Panel Gwirio hysbysir yr apelydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad, ac anfonir copi at y Pennaeth neu'r Rheolwr Llinell perthnasol, a gwahoddir yr apelydd i ymddangos gerbron y Panel Gwirio i gyflwyno ei achos.

5.3 Lle mae'r apelydd wedi ymddangos gerbron y Panel Gwirio i gyflwyno ei achos fe'i hysbysir yn ysgrifenedig o'r penderfyniad terfynol, ac anfonir copi at y Pennaeth neu'r Rheolwr Llinell perthnasol. Os bydd lefel gradd y swydd y newid, fel rheol bydd y newid cyflog yn dod i rym o'r diwrnod cyntaf ar ôl y dyddiad pryd y gofynnwyd i'r ceisiadau cychwynnol gael eu cyflwyno (Chwefror 1 neu Awst 1).

## 6. Gwarchod Data

Cedwir yr holl bapurau ac adroddiadau cefndir ar apeliadau dyrchafu/ailraddio yn ganolog o fewn Adnoddau Dynol, yn dilyn canllawiau Gwarchod Data.

## 7. **Monitro ac Adolygu**

Adolygir gweithrediad y Polisi hwn yn flynyddol neu yn gynt os lleisir pryderon gwirioneddol ynghylch hynny.